

Trosolwg yr aseiniad

Tuesday, December 10, 2019 1:49 PM

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw: Ffion Mair Howells

Rhif Myfyriwr: 1404739

Llwybr: Uwchradd

Linc: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1404739_student_uwtsd_ac_uk/EoSUr0lZzThJlpxlN_6ZI5YBW9qmY43EwA6sSdgghaTnKg?e=xOuwdt

Asesu ar Gyfer Dysgu

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM



Cynllun
gwers 15-...

Gwers hanes blwyddyn 9 – 15/11/2019

Yn y wers yma fe es i ati i ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu ar ffurf gwella darn estynedig o waith. Defnyddir hunan asesu ac wedyn asesu cyfoed i allu sicrhau bod y gwaith y maent yn gwneud yn cael eu canmol a hefyd bod yna targedau iddynt sydd wedi cael ei rhoi yna o bersbectif gwahanol.



Cynllun
gwers 18-...

Gwers hanes blwyddyn 7 – 18/11/2019

Defnyddir strategaeth meddwl, paru, rhannu i allu sicrhau bod y disgyblion yn cael siawns i roi eu syniadau ei hunan i lawr a hefyd bod y disgyblion gallu cydweithio i ychwanegu, cywiro a deall y gwaith. Gan ddefnyddio beiro gwyrdd mae'n galluogi mi fel athrawes gweld y cynnydd y mae'r disgybl wedi gwneud mewn un wers.



Cynllun
gwers 18-...

Gwers hanes blwyddyn 9 – 18/11/2019

I sicrhau fy mod wedi asesu pa fath o drywydd y mae'r disgyblion arno, fe wnes i greu tocynnau gadael fel clo i'r wers. Roedd gofyn i bob disgybl yn unigol i ysgrifennu ffaith ddiddorol am daith y Titanic a hefyd cynnwys cwestiwn y byddent nhw'n hoffi gwybod erbyn diwedd yr uned. Roedd y strategaeth yma yn galluogi mi i asesu dealltwriaeth a hefyd sicrhau fy mod yn cynnwys yr atebion i gwestiynau'r disgyblion yn y wers nesaf.



IMG_6482

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Tuesday, December 10, 2019

1:50 PM



Cynllun
gwers Un...

Gwers hanes blwyddyn 7 – 11/11/2019

Yn y wers yma fe wnes i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion. Fe ddefnyddir y dechneg o roi brawddeg wedi ei gymysgu i'r disgyblion sydd yn disgrifio termau y maent wedi bod yn gwneud gwaith arnynt.



Cynllun
gwers 26-...

Gwers hanes blwyddyn 7 – 26/11/2019

Fe wnes i ddefnyddio tasg cronoleg yn y wers yma i geisio datblygu sgiliau llythrennedd. Gan ddefnyddio geirfa sydd yn disgrifio adeg digwyddiad roedd y disgyblion gallu defnyddio eu sgiliau llythrennedd i allu ceisio rhoi'r digwyddiadau yn y drefn gywir gan ddefnyddio berfau ac ansoddeiriau.



Screen Shot
2020-01-...

Gwers hanes blwyddyn 7 – 22/11/2019

I ddechrau'r wers yma fe es i ati i roi ymarfer ar y bwrdd gwyn y byddai yn gwthio'r disgyblion i ddefnyddio ei sgiliau llythrennedd a rhifedd. Wrth ymarfer newid blynyddoedd mewn i ba ganrif y maent ynddo roedd ofyn i'r disgyblion i sillafu a threiglo yn gywir a hefyd sicrhau eu bod nhw wedi trosglwyddo'r flwyddyn i mewn i'r ganrif gywir.

Addysgu Uniongyrchol

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM



Cynllun
gwers 05-...

Gwers hanes blwyddyn 7 – 05/11/2019

Testun y wers – Oes ffeithiau neu farn mewn adroddiad papur newydd?

Yn y wers yma fe wnes i fynd ati i ddefnyddio strategaeth addysgu uniongyrchol ar ddechrau'r wers i sicrhau fy mod yn esbonio'r dasg yn fanwl ac yn gywir.



Cynllun
gwers Ert...

Gwers hanes blwyddyn 7 – 12/11/2019

Testun y wers – Oes ffeithiau neu farn mewn adroddiad papur newydd?

Yn y wers yma fe wnes i addasu sut y gwnes i ddefnyddio addysgu uniongyrchol yn y wers uchod (05/11/2019). Fe wnes i ddefnyddio'r bwrdd gwyn i gofnodi geirfa wnaeth y dosbarth blaenorol gweld yn anodd deall – roedd hun yn galluogi'r disgyblion i weld yr esboniad yn fwy clir heb orfod gofyn am gymorth ychwanegol wrth gyfoed a'r athrawes.



Cynllun
gwers 21-...

Gwers hanes TGAU blwyddyn 10 – 21/11/2019

Defnyddir addysgu uniongyrchol wrth ddechrau uned newydd. Wrth fynd ati i gyflwyno nodiadau'r uned newydd fe wnes i sicrhau fy mod yn defnyddio strategaethau addysgu uniongyrchol i wneud yn siŵr bod geirfa yn cael eu hesbonio yn glir.

Adfyfyrio Beirniadol

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM

Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu
adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor
addysgegol.

Yn y portffolio yma fe fyddai yn edrych nôl ar fy mhrofiad addysgu proffesiynol ac yn adfyfyrio yn feirniadol ar y cynnydd a wnes i dros yr wythnosau diwethaf. Fe fydd y portffolio yn ffocysu ar dri o egwyddorion (Donaldson, 2015). Yn ei adroddiad ar gwricwlwm newydd yng Nghymru a elwir yn 'Dyfodol Llwyddiannus' fe wnaeth gyflwyno deuddeg egwyddor, yn y portffolio yma fe fyddai yn ffocysu ar dair ohonynt. Yr un gyntaf fe fyddai yn canolbwyntio arno fydd 'Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu', yr ail fydd 'Drwy addysgu a dysgu da bydd Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer' a'r trydedd egwyddor fe fyddai yn trafod bydd 'Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol'. Fe es i ati i yn ystod fy mhrofiad dysgu proffesiynol i geisio defnyddio'r technegau yma o addysgu a'i addasu nhw i allu gwella'r dysgu gan ddefnyddio adborth o gynlluniau gwersi a fy nyddlyfr.

Trafod Y Llenyddiaeth

Wrth edrych ar lenyddiaeth sydd yn trafod yn benodol y tair egwyddor dan sylw sef Asesu ar gyfer dysgu, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd ac Addysgu Uniongyrchol mae'n amlwg wrth edrych bod yna ystod eang o lenyddiaeth yw gael. Yn sicr mae yna lawer o wahanol syniadau ynglŷn â'r cynnydd posib y mae asesu ar gyfer dysgu yn cynnig wrth sôn am y disgyblion dan sylw. Mae gwaith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, tud 7, 8) yn edrych ar wahanol fathau o asesu ar gyfer dysgu sydd yn sicrhau cynnydd i ddisgyblion ifanc Cymru. Mae'r darn yn pwysleisio bod yna gwahaniaeth clir iawn rhwng asesu ar gyfer dysgu er pwrpas graddio (sydd gydag enw da ei hun) ac asesu ar gyfer dysgu sy'n galw am wahanol flaenoriaethau, gweithdrefnau newydd ac ymrwymiad newydd. Mae athrawon felly yn sicrhau bod yna cynnydd o ran graddau disgyblion ar ddiwedd asesiad a hefyd cynnydd yn ystod y dysgu i sicrhau dealltwriaeth. Mae darn (Llywodraeth Cymru, 2010, tud 7) yn mynd ymlaen i esbonio yn gryno bod asesu ar gyfer dysgu yna i allu darganfod beth mae'r disgybl yn deall, darganfod ble mae angen i'r disgybl i gyrraedd ac felly sut y mae'r disgybl yn mynd i gyrraedd y targed yna. Mae'r darn felly yn mynd ymlaen i esbonio strategaethau asesu ar gyfer dysgu sydd yn cynnwys cwestiynu, ansawdd adborth a hunan asesu ac asesu cyfoed. Dadleir y darn felly wrth ddangos strategaethau gwahanol o asesu ar gyfer dysgu bod ffurf i roi asesu ar gyfer dysgu mewn i wersi yn gyfyngedig ac mae angen i'r athro addasu eu sgiliau pedagogaidd i allu sicrhau bod yna gynnydd o fewn yr addysgu a hefyd y dysgu. Mae

gwaith cynnar (Black, 1986, tud 12) yn pwysleisio pa mor gyfyngedig oedd llenyddiaeth a chefnogaeth wrth drafod asesu ffurfiannol, a hefyd bod yna llawer o amser ac ymdrech yn cael ei wastraffu ar asesu diwedd tymor a oedd yn ei farn ef ddim o fudd i'r dysgu yn y pen draw. Er hun wnaeth (Black a William, 1998, tud 13) mynd ati i ysgrifennu adolygiad a oedd yn trafod asesu. Trafodwyd tystiolaeth o asesu oedd yn effeithiol ac yn aneffeithiol a ddaeth i'r amlwg bod yr astudiaethau oedd yn cynnwys arloesedd wrth drafod asesu ffurfiannol yn aml yn cynhyrchu enillion dysgu arwyddocaol iawn.

Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru gan (Donaldson, 2015) felly wedi dewis i ganolbwyntio ar asesu fel egwyddor allweddol i sicrhau cynnydd wrth addysgu disgyblion Cymru.

Mae'r egwyddor o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn sicr yn bwysig iawn wrth drafod y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae (Donaldson, 2015) eisiau sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwthio cydweithio ar draws y meysydd dysgu a phrofiad i allu gweithredu ar sgiliau fel llythrennedd a rhifedd a gwella sgiliau disgyblion ar draws Cymru. Dywedir darn (Hayes, 2010, tud 383) y dylid addysgu trawsgwricwlaidd cael ei fagu i sicrhau bod pob maes dysgu yn cryfhau a ffynnu. Yn ychwanegol i hun dywed y darn ei fod yn bosib bod ddim angen trosglwyddo'r sgiliau yma i'r disgyblion yn arwahanol ond gellir ei drosglwyddo yn agored mewn ffurf project neu o fewn asesiad crynodedol. Er hun mae'n bosib gweld bod brwdfrydedd yn amrywio o fewn yr ysgolion wrth sôn am yr egwyddor yma. Atgyfnerthir y syniad yma o effeithlonrwydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd gan waith (Jefferey a Woods,

2009, 63) wrth iddynt sôn am enghreifftiau o sgiliau yn cael ei ddefnyddio ar draws meysydd dysgu mewn projectau ayyb, maent yn pwysleisio bod “Cross-curriculum strategies were also particularly effective.” yn yr achos yma.

Yng ngwaith (Hayes, 2010, tud 383) mae yna gyfeiriad amlwg at y budd y mae gweithio ar draws y meysydd dysgu ac felly yn drawsgwricwlaidd yn galluogi i ddisgyblion i drosglwyddo dysgu a sgiliau o un sefyllfa i'r llall. Yn sicr mae'r darn yma yn cysylltu gyda gofynion cwricwlwm newydd (Donaldson, 2015) sef bod disgyblion Cymru yn barod i allu defnyddio'r sgiliau maent wedi dysgu o fewn y dosbarth mewn sefyllfaoedd gwahanol a newydd. Mae yna awgrymiad cryf o fewn llenyddiaeth (Hayes, 2010, tud 383) felly bod addysgu gan gynnwys strategaethau trawsgwricwlaidd yn sicrhau bod y disgyblion yn cadw diddordeb yn y gwaith a hefyd byddai'r disgyblion yn gweld dysgu yn fwy holistig a chrwn a fydd yn galluogi nhw i allu gweithredu ar eu sgiliau heb orfod gwahaniaethu sgiliau o fewn meysydd dysgu a phynciau.

Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ddim yn unig yn cynnwys llythrennedd a rhifedd ond hefyd yn cynnwys y fframwaith digidol i sicrhau eto bod pobl ifanc Cymru yn barod i ddefnyddio sgiliau ar gyfer swyddi sydd ddim wedi ei greu eto ac felly yn sicr mae'r fframwaith digidol yn bwysig iawn wrth edrych ar waith (Donaldson, 2015, tud 68, 69). Er bod yna gwithiad amlwg gan Donaldson i gynnwys cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd i Gymru mae Donaldson wedi adnabod bod yna heriau o flaen athrawon.

Yr her fwyaf yw bod rhaid i athrawon sicrhau bod yna ffocws naturiol wrth ddysgu heb fod y cyfrifoldebau yn ymddangos fel rhywbeth ychwanegol i'r wers sydd ddim yn cyd-fynd gyda'r pwnc.

Wrth edrych ar lenyddiaeth sydd yn sôn am addysgu uniongyrchol mae yna niferoedd o wahanol safleoedd. Wrth ddarllen darn (Robinson, 2015, tud 106) mae'n amlwg gweld bod addysgu uniongyrchol yn bwysig iawn wrth drafod cynnydd disgyblion a chynnydd athrawon. Dywedir (Robinson, 2015, tud 105) bod yna le hanfodol i addysgu uniongyrchol o fewn ystafell dosbarth, mae hwn yn cynnwys addysgu uniongyrchol i'r dosbarth i gyd, gyda grwpiau llai a hefyd gyda disgyblion unigol. Er hun mae (Robinson, 2015, tud 106) yn cydnabod mae ddim ond un o strategaethau dysgu hanfodol yw addysgu uniongyrchol ac mae'r athrawon sydd yn gallu deall y cydbwysedd rhwng addysgu uniongyrchol a'r strategaethau dysgu eraill yw'r athrawon a fydd yn ffynnu yn y pendraw. Mae athrawon sydd yn arbenigo felly yn addasu eu strategaethau dysgu yn ôl pwy y maent yn addysgu ac felly efallai y byddai addysgu uniongyrchol ddim mor effeithiol i rai disgyblion.

Dadleir bod gwaith (Rosenshine, 2012, tud 19) 'Principles of Instruction' yn hanfodol i bob athro i ddarllen wrth ddrafod addysgu uniongyrchol. Dywedir (Rosenshine, 2012, tud 19) y dylid gwers ddechrau pob tro gydag addysgu uniongyrchol fel dosbarth cyfan i allu adalw ar ddysgu blaenorol i wneud yn siŵr bod y disgyblion yn cofio. Hefyd wrth sôn am addysgu uniongyrchol mae (Rosenshine, 2012, tud 19) yn awgrymu dylid y wybodaeth newydd y mae

athro yn cynnig i'r disgyblion cael ei addysgu yn uniongyrchol ond mewn darnau bach. Os mae disgybl yn derbyn gormod o wybodaeth ar ffurf addysgu uniongyrchol mae'r strategaeth yma o addysgu ddim yn mynd i fod yn effeithiol. Er hun os mae athro yn defnyddio addysgu uniongyrchol yn gywir gyda chyfarwyddiadau ac esboniadau clir a manwl y mae'r sicr yn bosib y bydd y disgyblion yn gweld y budd ohono.

Fe wnaeth (Datchuck, 2017, tud 63) ymchwilio i mewn i effaith addysgu uniongyrchol wrth drafod llythrennedd disgyblion. Wrth i (Datchuck, 2017, tud 63) edrych ar ymchwil blaenorol fe wnaeth ddarganfod bod addysgu uniongyrchol yn gymorth enfawr i ddisgyblion wrth iddynt fynd ati i greu brawddegau. Awgrymir ef felly wrth ddefnyddio ysgogiadau mewn ffurf addysgu uniongyrchol roedd y disgyblion yn magu hyder ac yn gallu defnyddio'r wybodaeth uniongyrchol yma i sicrhau cywirdeb wrth iddynt fynd ati i greu brawddegau ac ysgrifennu yn estynedig. Felly wrth edrych yn ddyfnach mewn i'r ymchwil yma mae'n bosib gweld bod yr egwyddor dan sylw sef addysgu uniongyrchol yn gallu cael effaith ar egwyddor arall sydd dan sylw sef y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd wrth sôn am lythrennedd oherwydd y mae addysgu uniongyrchol cywir a manwl yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu llythrennedd yn y pen draw.

Casgliad ar gynnydd

Yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol fe es i ati i wneud fy nghorau i gynnwys yr

egwyddorion yma yn fy ngwersi i. Roedd angen i mi felly sicrhau bod gennyf i wahanol strategaethau o weithredu'r egwyddorion sef Asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ac addysgu uniongyrchol. Wrth drafod asesu ar gyfer dysgu fe es i ati gyda dosbarth blwyddyn 7 i feddwl, paru a rhannu. Ym mlwyddyn 7 mae'r cynllun gwaith yr ysgol yn gofyn iddynt i ddysgu 'Beth yw Hanes?' ac felly mae hyn yn cynnwys dysgu sut yr ydym yn dysgu am y gorffennol. Roedd gofyn i'r disgyblion yn y wers yma i adalw ar wybodaeth roeddent wedi dysgu yn y wers ddiwethaf. Roedd angen iddynt greu map meddwl gan gynnwys eu syniadau, wedyn aethant ati i ychwanegu at eu dealltwriaeth mewn beiro gwyrdd gan weithio fel pâ'r ac wedyn rhannu ar lawr y dosbarth a oedd wedyn yn siawns i mi'r athrawes i asesu beth yr oeddent wedi deall. Fe wnaeth y strategaeth yma weithio yn weddol dda gyda'r dosbarth yma, fe wnaethant addasu a chywiro eu gwybodaeth wrth gydweithio gydag eraill. Hefyd wrth iddynt weithio mewn beiro gwyrdd roedd hwn yn galluogi mi i adnabod faint o ddealltwriaeth oedd ganddynt yn unigol cyn mynd ati i gydweithio.

Yn fy ngwers blwyddyn 9 fe es i ati i gyflwyno tasg asesu ar ôl iddynt orffen darn estynedig o ysgrifennu ar y chwyldro diwydiannol. Mae'n bosib gweld sôn am y fath yma o asesu ar gyfer dysgu yng ngwaith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) be maent yn sôn am asesu er pwrpas helpu i raddio gwaith disgyblion Cymru. Wrth ddefnyddio'r strategaeth yma o asesu ar gyfer dysgu roedd y disgyblion nawr yn gallu nid yn unig cynnig sylwadau positif i waith ei hunan ond hefyd yn gallu rhoi cymorth i gyfoed i adnabod eu gwendidau nhw sydd yn aml yn anodd gweld wrth edrych ar waith eich hunan.

Ar ôl dysgu fy nosbarth blwyddyn 9 arall a oedd yn dysgu am y Titanic fe wnes i benderfynu creu tocynnau gadael ar gyfer y wers. Fel tasg cloi roedd gofyn iddynt i lenwi tocyn a oedd yn gofyn iddyn nhw am ffaith ddiddorol a chwestiwn y byddent nhw eisiau cael ei ateb erbyn diwedd yr uned. Roedd y strategaeth yma yn galluogi'r disgyblion i ddangos eu dealltwriaeth unigol nhw wrth sôn am y ffaith fwyaf diddorol y maent wedi dysgu hyd yn hyn, a hefyd cwestiwn y byddai yn dangos ble roedd y disgyblion angen datblygu arno. Roedd y strategaeth yma yn ffordd hwyl a chyflym i asesu pob disgybl, er hun mae ddim yn strategaeth a oedd yn rhoi llawer o wybodaeth ac felly os yr oedd angen asesiad mwy cyflawn o ddealltwriaeth y disgyblion efallai y byddai angen addasu'r strategaeth yma neu ddefnyddio strategaeth arall.

Yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol fe gefais i brofiad uniongyrchol o weld sut yr oedd y meysydd dysgu a phrofiad yn dod at ei gilydd i gydweithio i ddatblygu sgiliau fel llythrennedd, rhifedd a'r fframwaith digidol. Yn ystod fy ngwersi fe wnes i ganolbwyntio ar sut i ddatblygu llythrennedd o fewn y dosbarth a'i sicrhau ei fod yn plethu gyda'r hanes ac nid fel tasg ychwanegol. Gwelwyd hun yng ngwers blwyddyn 7, roedd gofyn i'r dosbarth yma i fynd ati i weithio fel grŵp. Roddir cardiau gyda geiriau arnynt i bob grŵp ac roedd angen iddynt ddefnyddio eu sgiliau llythrennedd i allu rhoi'r geiriau mewn i frawddegau llawn. Roedd y brawddegau yn disgrifio geiriau fel tystiolaeth a thystiolaeth unochrog a oedd yn destun ar y

dysgu yn y wers hon. Roedd yna ymdrech felly i blethu eu sgiliau llythrennedd i mewn i'r dysgu hanesyddol.

Wrth ddysgu dosbarth hanes blwyddyn 7 arall fe wnes i fynd ati i roi cynnig ar ddatblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion trwy dasg cronoleg. Roedd gofyn i'r disgyblion i edrych ar lawer o frawddegau oedd yn sôn am wahanol ddigwyddiadau hanesyddol. I allu rhoi'r brawddegau yng nghronolegol gywir roedd rhaid i'r disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau llythrennedd i allu cymharu'r brawddegau i allu rhoi nhw yn y drefn gywir e.e.. os mae un frawddeg yn sôn am enedigaeth Harri'r VIII a'r llall yn dechrau gyda "Bu farw Harri'r VIII" roedd gofyn iddynt i bigo allan y cliwiau llythrennol yma i allu cyflawni'r dasg yma. Yn ychwanegol i hun roedd rhai o'r brawddegau gyda chliwiau blynyddol arnynt ac felly wrth i'r disgyblion mynd ati i adio a thynnu i ddarganfod pa ddigwyddiad hanesyddol ddigwyddodd cyntaf roedd yna yn sicr elfen o sgiliau rhifedd o fewn y dasg yma. Roedd y dasg yma yn un sydyn wrth adolygu'r uned ac felly i allu datblygu a chynyddu wrth drafod yr egwyddor yma byddai creu tasg a fydd yn parhau dros wers gyfan yn sicr yn ddatblygiad positif. Hefyd mae trafod gyda'r athrawon sydd gyda chyfrifoldeb o wthio cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd o fewn yr ysgol profiad yn fudd enfawr i mi wrth i mi ddatblygu fy syniadau.

I sicrhau bod y disgyblion yn dod yn gyfarwydd â chanrifoedd sydd yn gynllun gwaith hanes yn fy ysgol profiad fe wnes i yn sicr bod dosbarthiadau blwyddyn 7 yn cael y cyfle i ymarfer

llythrennedd sef y sillafu a threigladau o fewn y canrifoedd. Yn ychwanegol i hun mae'n rhoi'r siawns i'r disgyblion i adnabod y rhifedd o fewn cysylltu'r canrifoedd fel blynyddoedd a sut y maent wedi cael ei rhoi fel geiriau. Gwneud hwn trwy ymarfer ar ddechrau gwersi.

Yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol fe wnes i ganolbwyntio ar yr egwyddor o addysgu uniongyrchol. Roedd un o fy nosbarthiadau blwyddyn 7 yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn, fe es i ati felly yn y wers cynt i ofyn iddynt ddod mewn ac erthygl papur newydd iddynt gael uwcholeuo ffaith, barn a nifer o bethau eraill i allu gweld y gwahaniaeth yn amlwg. Ar ddechrau'r wers fe es i ati i addysgu yn uniongyrchol trwy esbonio yn glir ac yn fanwl sut y dylid nhw wneud y dasg. Fe wnes i ddangos enghraifft ar y bwrdd gwyn a oedd yn barod wedi uwcholeuo a wnes i esbonio mor glir ac y gallwn sut i gyflawni'r dasg. Fe wnes i hwn fel addysgu uniongyrchol gyda'r dosbarth i gyd ac wedyn roedd ofyn i mi fynd ati yn unigol i esbonio fwy oherwydd roedd rhai o'r disgyblion ddim yn deall rhai o'r eirfa oedd yn ofynnol iddynt i uwcholeuo ac felly yn yr achos yma roedd yr addysgu uniongyrchol yma ddim mor effeithiol a wnes i ragweld.

Er hun fe wnes i adnabod bod angen addasu'r strategaeth yma o addysgu yn uniongyrchol i allu gwneud cynnydd yn yr addysgu a hefyd yn y dysgu. Wrth addysgu dosbarth arall blwyddyn 7 a oedd yn gwneud yr un wers fe wnes i ychwanegu esboniad gweledol i'r wers. Yn ychwanegol i esbonio'r enghraifft ar y bwrdd gwyn fe es i ati i ysgrifennu'r eirfa a oedd y

dosbarth arall ddim wedi deall yn llawn ar y bwrdd gwyn, wrth i mi wneud hun fe wnes i agor trafodaeth ar lawr y dosbarth oedd yn gofyn i'r disgyblion i drafod i ddarganfod ystyr yr eirfa. Roedd disgyblion y dosbarth yma felly gallu defnyddio'r addysgu uniongyrchol gweledol a oedd ar y bwrdd gwyn i allu mynd ati i wneud y gwaith heb orfod gofyn i gyfoed neu i mi'r athrawes.

Wrth ystyried gwaith (Robinson, 2015) a oedd yn cynnig bod angen i athrawon sicrhau bod yna cydbwysedd rhwng addysgu uniongyrchol a strategaethau eraill o addysgu i sicrhau effeithlonrwydd, fe es i ati i gyflwyno'r maint a all weithio wrth addysgu dosbarth Hanes TGAU blwyddyn 10. Roedd y dosbarth yn barod i ddechrau uned newydd o waith ac felly ar ôl i mi asesu eu dealltwriaeth o deitl yr uned fe wnes i ddechrau addysgu yn uniongyrchol allan o'i llyfrau nodiadau. Wrth i mi ddarllen fe wnes i yn siŵr o ailadrodd geirfa anodd ac esbonio'r eirfa efallai byddai mwyafrif o'r dosbarth yn cael hun anodd i ddeall. Roedd y dosbarth wedyn gallu uwcholeuo ac anodi'r nodiadau wrth i mi esbonio'n fanwl ac yn gywir. Efallai wrth gydbwysu strategaethau addysgu fe allwn wedi olynu addysgu uniongyrchol gyda dysgu annibynnol wrth ofyn i'r disgyblion beth y maen nhw yn deall o rai o'r eirfa.

Argymhellion ar gyfer cynnydd

I sicrhau fy mod i yn gwneud cynnydd pellach wrth drafod y tair egwyddor yma mae angen i mi sicrhau fy mod yn defnyddio ystod eang o strategaethau wrth weithredu'r tair egwyddor.

Wrth drafod asesu ar gyfer dysgu byddai defnyddio fwy o gwestiynu wrth drafod ar lawr y dosbarth yn ffordd i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion yn gyflym wrth drafod gwahanol destunau o waith mewn i wers. Yn fy nosbarthiadau yn barod yr wyf wedi canolbwyntio i greu cynnydd wrth drafod llythrennedd o fewn fy nghyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, fe fydd yn bosib creu cynnydd pellach yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol wrth i mi ganolbwyntio mwy ar strategaethau rhifedd o fewn gwersi hanes gan fod hyn yn her i nifer o athrawon hanes ac ar draws y meysydd profiad ac addysgu. Hefyd mae'n bosib i mi wneud cynnydd wrth i mi addysgu yn uniongyrchol. Dywedir gwaith (Rosenshine, 2012) y dylid defnyddio strategaeth addysgu uniongyrchol wrth ddechrau pob gwersi i sicrhau bod disgyblion yn gallu adalw ar ddysgu blaenorol, felly i wneud yn sicr fy mod i yn cynnwys yr egwyddor yma yn fy ngwersi byddai yn defnyddio strategaethau gwahanol o addysgu uniongyrchol ar ddechrau fy ngwersi. Fe fyddai hefyd yn gorfod cadw ati i sicrhau bod yna cydbwysedd rhwng strategaethau eraill yn fy ngwersi.

- Black. P a Wiliam. D. (2012) '*Assessment for learning in the classroom*' yn Gardner. J '*Assessment and Learning*' Llundain, SAGE.
- Datchuck. S, M. (2017) yn The Journal of Special Education '*A direct instruction and Precision teaching intervention to improve the sentence construction of middle school students with writing difficulties*' , SAGE.
- Donaldson, G. (2015) '*Successful Futures - Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*'. DU, Llywodraeth Cymru.
- Hayes. D. (2010) '*The seductive charms of a cross-curricular approach*' DU, Routledge.
- Jeffrey. B a Woods. P (2009) '*Creative learning in the Primary school*' UDA a Canada, Routledge.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) '*Why Develop thinking and assessment for learning in the classroom?*' DU, Llywodraeth Cymru.
- Robinson. K a Aronica. L (2015) '*Creative Schools*' DU, Penguin Books.
- Rosenshine. B. (2012) '*Principles of Instruction – Research based strategies that all teachers should know*' . UDA, American Editor.